Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Cogydd Peripatetig**

**Lleoliad:** **Y Ganolfan Ddinesig, Blaenau Gwent**

**Cyfarwyddiaeth:** **Amgylchedd ac Adfywio**

**Cyfeirnod:** **BG17256**

**Cyflog:** **Gradd 4 (£24,294 to £26,421 pro rata/y flwyddyn)**

**Oriau:** **25 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig 39 wythnos y flwyddyn**

**Contract:** **Parhaol**

**Crynodeb Swydd**

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio dan oruchwyliaeth yr Arweinydd Tîm Cynorthwyol/Rheolwr i ddarparu'r gwasanaeth arlwyo gan arsylwi'r holl reoliadau ar hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch.

Diben swydd y Cogydd Peripatetig yw darparu'r gwasanaeth Arlwyo mewn gwahanol safleoedd ledled yr awdurdod.

Goruchwylio eraill yn y gweithle, gan weithio o fewn canllawiau a nodir gan Wasanaethau Arlwyo Blaenau Gwent i sicrhau y cyflawnir y safonau perfformiad cywir.

**Hysbyseb Lawn**

Mae cyfle wedi codi o fewn Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac Adfywio ar gyfer Cogydd Peripatetig i weithio dan oruchwyliaeth yr Arweinydd Tîm Cynorthwyol i gynhyrchu gwasanaeth Arlwyo Prydau Ysgol, gan arsylwi'r holl reoliadau ar hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd ag ystod llawn dyletswyddau Cogydd yn absenoldeb y Cogydd i gynnwys yr holl ddyletswyddau a gweithdrefnau gweinyddol.

Gellid gofyn i ddeiliad y swydd lanw dros absenoldeb tymor hir neu dymor byr o fewn Gwasanaeth Prydau Ysgol Blaenau Gwent.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus City & Guilds 706/1, 706/2 neu NVQ Lefel 1/2 mewn Arlwyo a Thystysgrifau Lefel 2 a 3 Diogelwch Bwyd. Bydd gennych brofiad o weithio o fewn y diwydiant Arlwyo gyda sgiliau arlwyo ymarferol.

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.**

**Dyddiad Cau:** **18/04/2024**

**Dyddiad Cyfweliadau:** **25/04/2024**